I S - D D E D D F W R I A E T H C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 117

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

## Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mehefin 2026* |
| *Yn dod i rym* | *25 Mehefin 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 10, 12(3), 81, 82, 203(9) a (10)(a), a 204(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) (Diwygio) 2026.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 25 Mehefin 2026.

**Diwygio Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) 2025**

**2.** Mae Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) 2025(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2006 p. 42. Mae diwygiadau i adrannau 10 a 203 nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

(**2**) LlC25-30.

**Diwygio paragraff 4**

**3.** Mae paragraff 4(7) (Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Cynllun Imiwneiddio ar gyfer ffliw) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (a)(v)(aa), yn lle “31 Mawrth” rhodder “28 Chwefror”, a

(b) ym mharagraff (f)(ii), yn lle “31 Mawrth 2027” rhodder “28 Chwefror 2027”.

**Diwygio paragraff 5**

**4.** Mae paragraff 5(1)(c) (cymhwystra ac amodau ar gyfer talu) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (iii), hepgorer “a”;

(b) ar ddiwedd is-baragraff (iv), hepgorer yr hanner colon a mewnosoder— “, a

(v) grŵp blaenoriaeth y person fel y’i pennir ym mharagraff 5 o’r fanyleb berthnasol;”.

**Diwygio’r Atodlen**

**5.**—(1) Mae’r Atodlen (Manyleb Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Imiwneiddio (Brechiad Ffliw Tymhorol)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff olaf ond un paragraff 2 (y cefndir), yn lle “Cenedlaethol a Phrotocolau Cenedlaethol” rhodder “cenedlaethol a thempled Cyfarwyddydau Grŵp Brechlynnau cenedlaethol”.

(3) Yn ail baragraff paragraff 5 (y carfannau cymwys i gael eu brechu o dan y Cynllun PCCS:I (Ffliw)), ar ôl “blaenoriaeth y carfannau cymwys” mewnosoder “yn unol â grwpiau blaenoriaeth”.

(4) Ym mharagraff 7(b) (talu am roi brechlyn ffliw o dan y PCCS:I hwn), yn lle “31 Mawrth 2027” rhodder “28 Chwefror 2027”.

(5) Ym mharagraff 8 (manyleb y PCCS:I)—

(a) yn is-baragraff (g) (y model darparu), yn lle “ar ôl cael cydsyniad” rhodder “ar ôl i gydsyniad ddod i law”,

(b) yn is-baragraff (f), yn y testun Cymraeg, yn lle “Anogir y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen” rhodder “Mae’r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael ei annog yn weithredol”,

(c) yn is-baragraff (h)(ii), yn lle “bod y person sy’n rhoi brechlyn yn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth” rhodder “y ceir cydsyniad ar sail gwybodaeth,”, a

(d) ar ddiwedd is-baragraff (l) (personau sy’n ymwneud â rhoi’r brechlyn), yn lle “Protocol” rhodder “Cyfarwyddyd Grŵp Brechlynnau”.



*Jo Larner*
Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Brechu, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru
23 Mehefin 2026